Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Llythyr: sector bancio

Llythyr gan Jeremy Miles, MS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg at y sector bancio.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 30 Ionawr 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 30 Ionawr 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/llythyr-sector-bancio-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

At sylw Penaethiaid gwasanaethau bancio yng Nghymru

Yn ddiweddar, bu i mi dderbyn sawl darn o ohebiaeth gan aelodau'r cyhoedd yn ymateb i benderfyniad HSBC i ddiddymu eu gwasanaeth ffôn Cymraeg. Mae fy ymateb i bob gohebiaeth wedi bod yn gyson; sef bod y newyddion yn hynod o siomedig a fy mod yn ymrwymedig i gynyddu'r defnydd o'n hiaith. Mae hyn yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac yn ganolog i'n strategaeth, **Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr**.

Mae gan Lywodraeth Cymru Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Chomisiynydd y Gymraeg. Yn y Memorandwm, mae maes bancio yn gyfrifoldeb i'r Comisiynydd. Er hynny, rwy'n awyddus iawn i gefnogi'r Comisiynydd trwy gysylltu â chi i bwysleisio'r pwysigrwydd o ddarparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg i'ch cwsmeriaid.

Gwn bod llawer o waith arbennig o dda yn cael ei wneud eisoes dros y Gymraeg ar draws canghennau a gwasanaethau Cymru gyfan, felly yn gyntaf hoffwn ddiolch i chi am sicrhau fod y Gymraeg yn weledol yn eich gwasanaethau ac eich bod yn parhau i wasanaethu pobl Cymru gyda chynnig rhagweithiol dwyieithog. Er hynny, mae gennym dal waith i wneud er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ac i'w diogelu ar gyfer cwsmeriaid a dinasyddion y dyfodol.

Mae tîm hybu Comisiynydd y Gymraeg ar gael i gefnogi'r sector i ddefnyddio a chynyddu'r Gymraeg o fewn y sector, felly rwy'n eich annog i gysylltu â nhw am gymorth pellach. Bydd y Comisiynydd yn parhau i weithio'n agos gyda'r maes bancio yn ystod y flwyddyn i wneud y canlynol:

- Cynnal perthynas rhagweithiol â'r banciau a chymdeithasau adeiladau
- Trefnu ymweliad gyda phenaethiaid ac uwch swyddogion banciau a chymdeithasau adeiladu yn ystod 2024
- Cynnwys gwybodaeth ar eu gwefan yn nodi pa wasanaeth Gymraeg sydd ar gael gan ba fanc a chymdeithas adeiladu a diweddaru hwn yn flynyddol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llythyr-sector-bancio-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Hoffwn dynnu eich sylw hefyd at wasanaeth cyfieithu testun a phrawf ddarllen, Helo Blod. Mae tîm Helo Blod ar gael i gefnogi busnesau yng Nghymru i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg, felly cysylltwch â nhw am sgwrs bellach.

Comisiynydd y Gymraeg: **post@cyg-wlc.cymru** /
**www.comisiynyddygymraeg.cymru**
Helo Blod: **busnescymru.llyw.cymru/heloblod** / 03000 258888

Diolch i bawb sydd eisoes yn gwneud gwaith gwych dros y Gymraeg yn y sector hwn, a diolch yn arbennig i bawb sy'n awyddus i ddatblygu eu gwasanaethau Cymraeg ar gyfer y dyfodol.

Yn gywir

**Jeremy Miles MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg


**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/llythyr-sector-bancio-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.